# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 20 Tachwedd 2023

Amser: 09.31 - 10.19

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13567

# O bell, Prifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Vikki Howells AS (Cadeirydd)<br>Natasha Asghar AS<br>John Griffiths AS<br>Peredur Owen Griffiths AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Clerc)<br>Bethan Garwood (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

1.2 Ni chafwyd datganiadau o fuddiant, na dirprwyon. Esgusododd Peredur Owen Griffiths ei hun ar gyfer yr eitem olaf.

## 2 Adroddiad Cydymffurfio Grwpiau Trawsbleidiol

2.1 Cytunodd y Pwyllgor i gynnig i'r Llywydd y dylai gymryd drosodd y cyfrifoldeb am anfon llythyrau atgoffa at y Cadeiryddion ynghylch y rheolau ar gyfer gweithredu Grwpiau Trawsbleidiol.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gadeiryddion y Grwpiau Trawsbleidiol nad ymddengys eu bod wedi bod yn weithredol o gwbl dros y flwyddyn ddiwethaf i gadarnhau eu sefyllfa a gofyn am waith papur sy'n weddill.

2.3. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gadeiryddion grwpiau a oedd wedi'u cofrestru'n hwyr, i'w hatgoffa o'u dyletswyddau fel Cadeiryddion ac i ofyn am waith papur sy'n weddill.

2.4 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gadeiryddion grwpiau nad oeddent wedi cydymffurfio ers dwy flynedd i roi gwybod iddynt y gallant gael eu datgofrestru os na fyddant yn cydymffurfio am drydedd flwyddyn.

2.5 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at yr holl Aelodau yn eu hatgoffa o'r rheolau ar weithredu Grwpiau Trawsbleidiol yn ogystal â'u cyfrifoldebau fel Cadeiryddion y Grwpiau.

## 3 Urddas a pharch

3.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Llywydd.

3.2 Trafododd y Pwyllgor y rhestr o dystion posibl ar gyfer yr ymchwiliad, a chytunodd arni gyda rhai ychwanegiadau.

## 4 Canllawiau lobïo diwygiedig

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y canllawiau diwygiedig.

## 5 Trafod adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i)

5.1 Trafododd y Pwyllgor adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i).